Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Rydal Penrhos

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Rydal Penrhos

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Rydal Penrhos |
| Statws y perchennog | Elusen gofrestredig |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol bob oed annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Nac oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 298 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 242 |
| Dyddiad ymweliad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/12/2024 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae Rydal Penrhos yn ysgol ddydd annibynnol ar gyfer bechgyn a merched rhwng 2 ac 18 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref Bae Colwyn yng Ngogledd Cymru. Mae'r ysgol yn gweithredu fel ymddiriedolaeth elusennol, a sefydlwyd gan yr Eglwys Fethodistaidd, ac yn ysgol gysylltiol yn yr Ymddiriedolaeth Ysgolion Annibynnol Methodistaidd.

Mae 298 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys 30 yn y dosbarth meithrin, 113 yn yr ysgol baratoadol a 184 yn yr ysgol hŷn, y mae 55 ohonynt yn y chweched dosbarth.

Yn ystod y pandemig, gostyngodd nifer y disgyblion preswyl i sefyllfa anghynaliadwy. Nid oes unrhyw ddisgyblion preswyl ar y gofrestr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn dymuno cadw'r opsiwn i ailddderbyn disgyblion preswyl rhywbryd yn y dyfodol.

Mae'r ysgol yn un annethol a gallai disgyblion newydd ymuno â'r ysgol ar unrhyw adeg.

Daw ychydig iawn o ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg yn rhugl ac mae ychydig iawn ohonynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf ar yr aelwyd. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol i ychydig iawn o ddisgyblion.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2023.

## Crynodeb

Mae'r pennaeth a'r is-benaethiaid yn Rydal Penrhos wedi llwyddo i adfywio gweledigaeth a diben yr ysgol yn y cyfnod byr ers eu penodi. Mae eu harweinyddiaeth wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y sefydliad, fel crynhoi'r ysgol ar un safle a gweithredu model arweinyddiaeth symlach. Mae'r newidiadau hyn wedi meithrin amgylchedd cydweithredol gyda ffocws ar y cyd ar welliant parhaus.

Mae disgyblion yn yr ysgol yn elwa o ymdeimlad cryf o gymuned, parch a chymorth, diolch i'w perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus â staff. Mae'r system dai a digwyddiadau elusennol, fel y ffair Nadolig, yn rhannau annatod o fywyd yr ysgol, sy'n hyrwyddo ymdeimlad clir o berthyn. Mae'r ysgol yn sicrhau cydbwysedd rhwng hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn gryf ac ymagwedd gynhwysol at gredoau eraill.

Mae rolau arwain wedi'u dosbarthu'n eang ymhlith disgyblion, y mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn pwyllgorau, ac yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Mae'r ymdeimlad hwn o berchnogaeth yn cyfrannu at agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu, lle mae perthnasoedd cryf rhwng athrawon a disgyblion yn creu ystafelloedd dosbarth tawel a phwrpasol. Mae mwyafrif o wersi wedi'u strwythuro'n dda, yn cynnal llawer o egni ac yn cyflwyno'r lefel gywir o her i ddisgyblion.

Mae athrawon yn Rydal Penrhos yn datblygu medrau llafaredd disgyblion yn gyson trwy holi agored effeithiol. Mae athrawon TGAU a Safon Uwch, gyda'u harbenigedd pwnc, yn magu hyder ac yn meithrin eglurder ymhlith disgyblion am yr hyn y mae angen iddynt ei ddysgu. Mae systemau newydd ar gyfer gosod targedau a monitro cynnydd yn helpu disgyblion i olrhain eu datblygiad, ac mae'r defnydd effeithiol o wybodaeth asesu yn galluogi athrawon i addasu eu dulliau addysgu a darparu cymorth teilwredig.

## Cydymffurfio â’r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae’r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Darparu gwybodaeth**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Parhau i weithredu ac ymgorffori blaenoriaethau gwella presennol yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori’r perchennog i ddiwygio’i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae’r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i’r argymhellion. Hefyd, byddai’n ddoeth dosbarthu’r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i’r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Prif werthusiad

Yn y cyfnod cymharol fyr ers eu penodi, mae'r pennaeth a'r is-benaethiaid wedi adfywio gweledigaeth yr ysgol ac adnewyddu ei diben. Maent wedi goruchwylio newid sefydliadol sylweddol, yn cynnwys adleoli'r ysgol i un safle a gosod model arweinyddiaeth symlach. Mae arweinwyr ar bob lefel, trwy gyfathrebu effeithiol a chyfrifoldebau wedi'u dosbarthu'n glir, yn cydweithio a gyda ffocws ar y cyd ar welliant parhaus. O ganlyniad, mae gan staff ar draws yr ysgol synnwyr clir o weithrediad ac uchelgeisiau strategol yr ysgol.

Mae gan ddisgyblion yn Rydal Penrhos synnwyr cryf o gymuned. Maent yn teimlo'u bod yn cael eu parchu, yn derbyn gofal, ac yn gwybod bod staff yn eu deall a'u cefnogi. Mae'r system dai yn nodwedd ganolog yn yr ysgol. Mae disgyblion yn falch o'u hymglymiad ac yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o gystadlaethau. Mae digwyddiadau elusennol hefyd yn rhan gynhenid o galendr yr ysgol. Er enghraifft, y ffair Nadolig i gefnogi Tŷ Gobaith, sef elusen sy'n cynorthwyo plant â salwch angheuol. Mae'r ffydd Gristnogol yn gonglfaen hynod weladwy ym mywyd yr ysgol. Mae hyn yn cyd-fynd ag awyrgylch cynhwysol sy'n annog dealltwriaeth ac yn gwerthfawrogi ffydd a chredoau ehangach. Mae hon yn nodwedd gref yn y gymuned.

Mae gan lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol swyddi arwain ac maent yn aelodau o bwyllgorau sy'n gyrru agweddau ar fywyd yr ysgol, fel y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn y rolau hyn ac yn deall y cyfrifoldebau sy'n eu hategu. O ganlyniad, ar bob lefel ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn gweithredu ar eu hawgrymiadau, pan fo'n briodol.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn rhannu eu profiadau ac yn trafod eu dysgu ag eglurder a mewnwelediad. Mae hyder ymhlith bron pob un o'r disgyblion fod eu hymdrech yn cael ei gwerthfawrogi y tu hwnt i cyflawni. Maent yn deall mai ymdrech gynaledig, ynghyd â chymorth effeithiol gan eu hathrawon, yw'r llwybr gorau tuag at gynnydd.

O ganlyniad i berthnasoedd gwaith cryf ac effeithiol rhwng athrawon a disgyblion, mae bron pob ystafell ddosbarth yn amgylcheddau dysgu tawel a phwrpasol. Mae disgyblion yn arddangos lefelau uchel o ymddiriedaeth yn eu hathrawon ac yn ymdrin â'u dysgu â brwdfrydedd ac ymroddiad.

Caiff llawer o wersi a dilyniannau o wersi eu cynllunio a'u strwythuro'n ofalus ac yn bwrpasol i alluogi disgyblion i wneud cynnydd â'u dysgu. Mewn mwyafrif o wersi, caiff cyflymdra gweithgarwch ei gynnal ar lefel uchel. O ganlyniad i weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda, yn cynnwys adnoddau a thasgau wedi'u haddasu, mae bron pob un o'r disgyblion yn cael lefel briodol o her.

O ganlyniad i holi agored a threiddgar gan bron bob un o'r athrawon, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cyflym yn datblygu eu medrau llafaredd. Maent yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn fedrus trwy drafod, gan ddefnyddio gwrando gweithredol, ac yn dangos empathi wrth gydweithio. O ganlyniad i'r safonau uchel a fynnir gan lawer o athrawon, mae mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o eirfa dechnegol gywir wrth ddisgrifio'u dysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon pwnc TGAU a Safon Uwch yn meddu ar ddealltwriaeth hynod effeithiol o ofynion a galwadau'r cyrsiau hyn. O ganlyniad, mae disgyblion yn eu dosbarthiadau yn dangos hyder a synnwyr o chwilfrydedd yn eu dysgu, gyda dealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei ddysgu a'i gyflawni.

O ganlyniad i systemau ar gyfer gosod targedau, olrhain a monitro a sefydlwyd yn ddiweddar, ac a roddwyd ar waith gan uwch arweinwyr, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u cynnydd cyffredinol a'u perfformiad academaidd. Mae hyn, ar y cyd ag athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn agos mewn amser real, yn golygu bod llawer o ddisgyblion yn gwneud lefel gref o gynnydd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth asesu i lywio addysgu. Ar lefel dosbarth, er enghraifft, mae athrawon yn dilyn darnau asesedig o ysgrifennu estynedig gyda gwersi sy'n canolbwyntio ar dargedau gwella disgyblion unigol. Ar lefel unigol, mae systemau monitro yn effeithiol o ran nodi disgyblion sy'n gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl, ac fe gaiff strategaethau cymorth ac ymyrraeth eu rhoi ar waith ar eu cyfer wedyn.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o arolygiad blaenorol

### A1 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws yr ysgol

Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed newidiadau sylweddol i'r strwythurau arwain a llywodraethu yn yr ysgol. Cynhaliodd y pennaeth newydd adolygiad arweinyddiaeth a arweiniodd at ailstrwythuro a symleiddio tîm arweinyddiaeth yr ysgol. Erbyn hyn, mae dau is-bennaeth yn goruchwylio gwaith bugeiliol ac academaidd yr ysgol. Ar yr un pryd, adolygodd y corff llywodraethol ei strwythur a'i weithrediad, gan adnewyddu ei ddiben a'i allu i weithredu fel ffrind beirniadol i arweinwyr yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r is-benaethiaid yn dîm effeithiol a chlòs. Mae'r pennaeth yn rhannu gwybodaeth yn agored ac yn cynnwys yr is-benaethiaid wrth wneud pob penderfyniad. Gyda'i gilydd, maent wedi rheoli newidiadau sylweddol i'r sefydliad yn llwyddiannus, gan arwain at amgylchedd dysgu gwell ar gyfer disgyblion, wedi gwella morâl ac ymddiriedaeth staff, ac wedi cryfhau synnwyr yr ysgol o gymuned.

Mae arweinwyr canol, er enghraifft penaethiaid cyfadrannau, arweinwyr sector a phenaethiaid blwyddyn, wedi cael eu grymuso gan yr uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) newydd. Caiff rolau a chyfrifoldebau eu dosbarthu'n briodol ac mae'r UDA yn rhoi cydbwysedd o ymreolaeth, cymorth a her i arweinwyr canol. O ganlyniad, mae arweinwyr canol yn frwdfrydig yn datblygu a gweithredu syniadau newydd i addasu a gwella darpariaeth yr ysgol.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn gweithio'n gydweithredol gyda diben cyffredin, gan ddefnyddio iaith gyson a rennir. O ganlyniad, mae arweinyddiaeth yn yr ysgol yn fwy hunanfyfyriol, cydweithredol a chydlynol, ac mae staff yn ymroi i wella'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

## A2 Cryfhau prosesau cynllunio gwelliant

Yn ddiweddar, yn enwedig ers penodi’r pennaeth newydd ym mis Medi 2023, cryfhawyd prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Ceir cysylltiad clir erbyn hyn rhwng gweithgareddau sicrhau ansawdd, deilliannau a chyrchfannau disgyblion, datblygiad proffesiynol staff a ffurfio blaenoriaethau gwella.

Mae tystiolaeth a gasglwyd gan arweinwyr i ategu eu hunanwerthusiadau yn gadarn. Er enghraifft, mae’r pennaeth, yr is-benaethiaid, a phenaethiaid cyfadrannau, yn cynnal cylch o arsylwadau gwersi a theithiau dysgu i werthuso effeithiolrwydd yr addysgu. Mae ffocws clir i’r gweithgareddau hyn, fel effaith adborth athrawon, ac mae cofnodion yn cynnwys manylion addas i gefnogi deialog broffesiynol barhaus. Fodd bynnag, nid yw’r arsylwadau gwersi hyn yn cysylltu addysgu a chynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr, trwy ad-drefnu’r ysgol ar un safle a ffurfio ‘cyfadrannau’ a ‘sectorau’ o fewn yr ysgol, wedi cynyddu’r cyfleoedd i staff gydweithio a herio’i gilydd. Ymhellach, trwy raglen barhaus i ‘ymestyn doniau’, caiff staff eu datblygu a’u cefnogi i weithio tuag at dargedau teilwredig. Mae’r rhain, ynghyd â model arweinyddiaeth symlach sydd wedi’i ddosbarthu’n effeithiol, wedi arwain at ffocws buddiol ar welliant parhaus ac arloesi. Mae arweinwyr canol ac athrawon yn teimlo’u bod wedi eu grymuso i awgrymu, gweithredu a gyrru gwelliannau.

## A3 Sicrhau bod heriau addysgu yn cefnogi pob un o’r disgyblion yn gyson

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd cyflym tuag at fodloni’r argymhelliad hwn.

Yn eu cyfnod byr yn y swydd, mae uwch arweinwyr wedi canolbwyntio gwaith gwella addysgu a dysgu ar y cylch cynllunio, addysgu, asesu ac adborth.

Mae ymagweddau cyson at gynllunio’r cwricwlwm wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau bod rhaglenni astudio’n cael eu cynllunio’n briodol ar gyfer datblygu gwybodaeth a medrau sy’n benodol i bwnc disgyblion bron ym mhob ardal o’r ysgol.

Mae’r system ar gyfer gosod targedau, olrhain, monitro ac adrodd, a sefydlwyd yn ddiweddar yn yr ysgol hŷn, yn hynod effeithiol o ran sicrhau bod athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o’r cynnydd sy’n cael ei wneud gan bob disgybl, ynghyd â’u cyd-destun bugeiliol. Mae hyn yn arwain at ddarparu cymorth priodol i ddisgyblion pan fydd angen trwy arfer ystafell ddosbarth wedi’i haddasu ac ymyrraeth bersonoledig. Mae’r Cydlynydd ADY a’i dîm wedi bod yn allweddol o ran darparu ystod eang o gymorth i ddisgyblion.

Mae arfer asesu ac adborth ar lefel pwnc yn effeithiol o ran sicrhau bod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym trwy lefelau priodol o her a chymorth.

## A4 Gwella ansawdd adborth athrawon fel bod disgyblion yn deall ble a sut gallant wella’u gwaith

Ym mis Medi 2024, cyflwynodd yr ysgol bolisi marcio ac adborth newydd. Cyfrannodd pob un o’r staff tuag at ei ddatblygu. Mae’n ddyddiau cynnar iawn o ran rhoi’r polisi hwn ar waith, ac ni ellir gwerthuso’i effaith ar gynnydd disgyblion eto. Ar hyn o bryd, mae’r dulliau a welwyd yn amrywiol. Fodd bynnag, mae gan staff

ddealltwriaeth gyson o'u hymagweddau at adborth, sy'n briodol i'r gweithgaredd ac yn cael eu hystyried yn ofalus. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn deall y meysydd y mae angen iddynt eu gwella.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2025